



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

**Y Weithrediaeth**  
**Executive**

## **Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl**

### **Briffio Rhanddeiliaid y Bwrdd Rhaglen**

**Awdur:** Kristy Rix, Rheolwr Cymorth Busnes, Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl

**Dyddiad:** 23 Medi 2024

**Rhifyn:** 1.0

#### **Diben y Ddogfen a Chrynodeb ohoni:**

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl yn darparu arweinyddiaeth system, canllawiau a chefnogaeth i sefydliadau GIG Cymru, a'r sector ehangach, i sicrhau canlyniadau, mynediad a phrofiad gwell ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Caiff gwelliannau i ansawdd a diogelwch eu llywio gan rwydweithiau strategol, rhaglenni strategol a galluogwyr. Arweinir y rhaglen gan Ciara Rogers, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Niwroddatblygu. Mae'n gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng polisi Llywodraeth Cymru a darparu gwasanaethau ac mae'n cael ei oruchwylio gan fwrdd rhaglen cenedlaethol. Mae bwrdd y rhaglen yn cyfarfod fesul deufis a chaiff ei gadeirio gan Hayley Thomas, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Diben y ddogfen hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am gynnydd a phenderfyniadau allweddol a wnaed gan y bwrdd.

**Dyddiad Cyfarfod: 23 Medi 2024**

#### **Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol**

##### **Diweddariadau Cynllun Gwaith**

- Mae Byrddau Iechyd yn meincnodi yn erbyn Manyleb Gwasanaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Mae proses Mapio Sicrwydd Anhwylderau Bwyta wedi dechrau
- Mae gofal oedolion ac oedolion hŷn yn ceisio cymorth gan randdeiliaid ar gyfer model gofal newydd
- Mae gwasanaethau amenedigol yn perfformio'n dda yn erbyn safonau Math 1
- Mae rhaglen therapiau seicolegol wedi dechrau ac yn sefydlu cynllun gwaith
- Mae cynllunio yn parhau ar gyfer trawsnewid gofal aciwt a gofal mewn argyfwng, gyda chyfarfodydd allweddol yn cael eu trefnu.
- Mae adrodd ar ganlyniadau a phrofiad yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd.

- Mae'r GIG wedi sefydlu grŵp i ddatblygu llinell sylfaen ariannol, ac mae mesurau goruchwyllo yn cael eu gwella gyda data cleifion mewnol newydd. Mae metrigau ansawdd iechyd meddwl yn cael eu hychwanegu at y Dangosfwrdd Beacon.
- Mae Gweithrediaeth y GIG yn defnyddio'r fframwaith System Rheoli Ansawdd (QMS) ar gyfer ansawdd a diogelwch. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gweill ar gyfer rhwydwaith ymchwil, ac mae cynlluniau ar gyfer digwyddiad dysgu mawr ym mis Mawrth 2024 yn cael eu harchwilio.
- Mae'r Gweithgor Data a Digidol yn datblygu Strategaeth Iechyd Meddwl Ddigidol i Gymru ac yn cefnogi'r Rhaglen Cysylltu Gofal.
- Yn ogystal â hynny, mae gwaith ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad yn mynd rhagddo, a gofynnwyd am adolygiad llywodraethu gan Lywodraeth Cymru.

### **Mynd i'r Afael â'r Galw am Gymorth Niwroamrywiaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**

Mae rheolaeth Rhaglen Gwella Niwroamrywiaeth Cymru yn parhau o dan Lywodraeth Cymru. Mae Ciara Rogers bellach yn cynrychioli safbwynt Uwch Dîm Arwain Gweithrediaeth y GIG ar y rhaglen honno.

Mae Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG yn cydweithio ar gynllun i gefnogi Byrddau Iechyd i ateb y galw cynyddol am asesiad. Mae amseroedd aros wedi cynyddu, gyda nifer yr unigolion dan 18 oed sy'n aros am asesiad yn cynyddu o 3,265 yn 2020 i 20,149 yn 2024. Mae'r prif ffocws ar wasanaethau i unigolion dan 18 oed. Os cawn hynny'n iawn, bydd yn lleihau y problemau yn y gwasanaethau oedolion yn y blynyddoedd i ddod yn sylweddol.

Trafodwyd tri cham gweithredu a rhoddodd yr aelodau eu cefnogaeth

- Casglu data sy'n fwy cadarn
- Gweithredu ar y rhestr aros
- Bydd Digwyddiad Dylunio Carlam i ddylunio model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn cael ei gynnal ar 27 a 28 Tachwedd 2024

### **Dull Cydgynhyrchu a Chynllun Gwaith**

Chwe mis yn ôl, cynhaliwyd ymarfer mapio cychwynnol i nodi arferion cyd-gynhyrchu ar draws y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl (SPMH). Datgelodd y broses hon amrywiadau nodedig mewn dulliau ymgysylltu a diffiniadau gwahanol o gyd-gynhyrchu. Mewn ymateb, mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) wedi ymrwmo i ddatblygu ymagwedd unedig a darparu hyfforddiant sylfaenol i sicrhau cysondeb. Fel rhan o ymdrechion parhaus, bydd mentrau newydd yn ymgorffori profiadau bywyd unigolion a gofalwyr yn fwy trylwyr a bydd cynlluniau i lansio'r prosiectau hyn yn ystod Gaeaf 2024.

Mae grŵp tasg penodol wedi'i sefydlu i adrodd i'r Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac mae ffocws penodol ar strategaethau gwobrwyo a chyd-nabod. Mae paratoadau ar y gweill i gyhoeddi tendrau ar gyfer gwasanaethau hyfforddi i gefnogi'r fenter hon. Yn ogystal â hynny, ceisir cydweithredu â chyrff allanol, megis Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Cymru, i sicrhau aliniad ag arferion gorau ac i elwa ar eu harbenigedd.

### **Gofal Cywir, y Person Cywir**

Mae'r fenter hon, a ddaeth yn ddull gweithredu cenedlaethol ar draws Cymru a Lloegr yn 2023, yn cael ei harwain gan yr heddlu a'i strwythuro ar draws pedwar cyfnod allweddol:

1. Cam un – pryder am lesiant
2. Cam dau – Cleifion sy'n cerdded allan o ysbyty iechyd meddwl a chleifion sy'n absennol heb ganiatâd (AWOL)
3. Cam tri – cludo cleifion
4. Cam pedwar – adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a chleifion iechyd meddwl gwirfoddol

Mae'n bwysig nodi, er gwaethaf y newidiadau hyn, nad oes unrhyw gyfrifoldebau diogelu wedi newid. Bydd yr heddlu'n parhau i ymyrryd pan fo trosedd yn gysylltiedig, pan fo perygl uniongyrchol i fywyd, neu pan fo eraill mewn perygl.

Mae'r cynnig yn amlinellu cynllun i Weithrediaeth y GIG gydweithio â'r heddlu ar lefel genedlaethol i greu model o arferion gorau ar gyfer polisïau AWOL yn ogystal â pholisïau yn ymwneud â chleifion sy'n mynd ar goll o gyfleusterau gofal iechyd. Bydd y rhain wedyn ar gael i Fyrddau Iechyd eu mabwysiadu a diweddarau eu protocolau presennol.

Mae Cam 1 yn dod yn ei flaen yn dda. Nid oedd Byrddau Iechyd yn teimlo bod angen defnyddio'r gweithdrefnau uwchgyfeirio i ofyn yn ffurfiol am oedi yn amserlen Cam 2 oherwydd risgiau posibl. Fodd bynnag, nodwyd y bydd angen mwy o weithio mewn partneriaeth ar Gam 3 a Cham 4.

**Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 26 Tachwedd 2024.**

**Mae eitemau agenda'r cyfarfod nesaf yn cynnwys:**

**Trawsnewid Gofal Acíwt a Gofal Argyfwng**

**Rhaglen Diogelwch Cleifion Iechyd Meddwl**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y papur briffio hwn, anfonwch e-bost at [nhswe.spmh@wales.nhs.uk](mailto:nhswe.spmh@wales.nhs.uk)